**CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR**

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 5 IONAWR, 2021**

**CYNHALIWYD Y CYFARFOD DROS ZOOM**

**Yn bresennol** Cyng. Mark Davies (cadeirydd)
Cyng. Emyr Jones
Cyng. Llŷr Evans
Cyng. Julie Davies
Cyng. Owenna Davies
Cyng. Ceri Jones
Cyng. Sharon Thomas

**Ymddiheuriadau** Cyng. Evan John Jones, Cyng. Maldwyn Lewis, Cyng. Teifi Evans.

**Clerc** Margaret Jones

| Eitem ar yr Agenda | | Gweithredu | Gan bwy | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ymddiheuriadau | Cafwyd ymddiheuriadau gan Gyng Evan John Jones, Cyng. Maldwyn Lewis a Chyng. Teifi Evans. | | |
| 2 | Datgelu Buddiannau | Datgelwyd budd gan Gynghorwyr Ceri Jones ac Emyr Jones yn y llythyr a gafwyd mewn neges e-bost gan Hawis Lloyd. | | |
| 3 | Cofnodion cyfarfod mis Rhagfyr | Roedd pob Cynghorydd wedi cael copi o gofnodion cyfarfod mis Rhagfyr. Cynigiodd Cyng Julie Davies eu bod yn gofnod cywir, eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Ceri Jones a chytunodd pawb a oedd yn bresennol.<br><br>Materion yn Codi – Cadarnhaodd y Clerc bod y Wefan wedi cael ei diweddaru gyda gwybodaeth leol h.y. Mark Webb & Son,; Busnes Cymru a Kickstart Cymru, yn ogystal â chofnodion mis Rhagfyr.<br><br>Adroddwyd am y Panel sydd ar goll yn y lloches bws yng Nghroes-lan a'r twll ger y gyffordd wrth ymyl yr hen ysgol ym Mrongest i CLIC Ceredigion ac roedd y Clerc wedi cael galwad ffôn gan aelod o dîm CLIC yn gofyn am godau post y 2 eitem yr adroddwyd amdanynt. Bydd y clerc yn anfon y codau post ymlaen ar gyfer y lloches bws, sef SA44 4SH, ac ar gyfer y gyffordd ger yr hen ysgol ym Mrongest, sef SA38 9ET. | **Clerc** | |
| 4. | Adroddiad y Cynghorydd Sir | Yn absenoldeb Cyng. Maldwyn Lewis, nid oedd unrhyw beth i'w adrodd. | | |
| 5. | Gohebiaeth | Roedd y Clerc wedi cael neges e-bost gan Gynllun Cymru ynghylch hyfforddiant defnyddio Diffibrilwyr, y byddai modd ei weld ar-lein. Mae hwn yn fideo da iawn, a chytunwyd y dylai pawb rannu'r neges hon ar Facebook ac ati.<br><br>Yn ogystal, roedd Natural England wedi anfon arolwg ymlaen mewn neges e-bost i breswylwyr ei lenwi ynghylch byw yng nghefn gwlad. Er bod yr arolwg gan Natural England, roedd yn chwilio am ymateb gan boblogaeth Cymru hefyd. Gofynnodd y Cadeirydd i bawb ei lenwi os oes modd. | | |

Cafwyd llythyr gan H. Lloyd ynghylch perchnogaeth ail gartrefi yn yr ardal leol, ac yng Ngheredigion. Roedd Cyng. Maldwyn Lewis wedi adrodd i'r Cadeirydd cyn y cyfarfod hwn bod y mater wedi cael ei drafod gan Gyngor Sir Ceredigion. Roedd y llythyr yn nodi pa mor niweidiol yw hyn i'r cymunedau, i draddodiadau/diwylliant ac i'r iaith Gymraeg. Er mai unigolyn oedd wedi anfon y llythyr atom, ysgrifennwyd y llythyr ar ran grŵp Bro360 a nifer o deuluoedd lleol, ac yn enwedig pobl ifanc yn yr ardal, sy'n teimlo eu bod yn cael eu prisio allan o'r farchnad dai ar hyn o bryd gan bod prisiau tai lleol yn codi'n sylweddol ac mae pobl o'r tu allan i'r ardal yn gallu prynu eiddo am arian parod. Er bod rhai pobl sy'n symud i'r ardal yn fodlon dysgu'r iaith, mae'r rhain yn brin. Un pwynt a wnaethpwyd yw y dylai Asiantau Tai hysbysu darpar brynwyr o ddiwylliant ac iaith yr ardal o bosibl. Cafwyd cryn drafodaeth am y llythyr, ond nid oes ateb amlwg, ond gallai pobl leol, grwpiau lleol ac ati gysylltu â Ben Lake, A.S. a hefyd, mynegi eu pryderon i Gyngor Sir Ceredigion.

6. Cynllunio

Cais Cynllunio A200869 – Rhannodd y Cadeirydd frasluniau cais cynllunio ar y sgrin er mwyn i'r aelodau eu gweld. Gwneir y cais gan deulu proffesiynol Cymraeg ifanc lleol sydd wedi cyflwyno cais am annedd newydd ar dir y maent yn berchen arno ac yn ei ffermio gan nad ydynt wedi llwyddo i ddod o hyd i eiddo digon mawr yn yr ardal leol ar gyfer y teulu, a'i brynu. Trafodwyd y mater ac roedd pob Cynghorydd o blaid y cais hwn. Felly, aeth y Cadeirydd a'r holl rai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod ymlaen i gefnogi'r cais hwn, gan adrodd hynny ar wefan Cyngor Sir Ceredigion.

7. Ariannol

Ffurflenni Grant – Roedd pwyllgor Eisteddfod Rhydlewis a phwyllgor Bowlio Mat Byr Rhydlewis wedi cadarnhau na fyddent yn gwneud cais am grant eleni.
Roedd C.A.B. Aberteifi wedi anfon neges e-bost yn gofyn am gymorth. Ni chafwyd unrhyw ohebiaeth arall ynghylch grantiau.

Archwiliad – Bydd y Clerc yn drafftio llythyr gyda chymorth y Cadeirydd ac yn ei anfon ymlaen at Swyddfa Archwilio Cymru yn gofyn am ddiweddariad a'r camau nesaf i'w cymryd.

Taliadau

CThEM – 1 siec am y swm o £42.40
Cyflog y Clerc - £170.00
Treuliau'r Clerc - £35.24 (stampiau a batris ar gyfer goleuadau coeden Nadolig).

8. Materion Ardal

**Maesllyn –** Roedd Cyng. Maldwyn Lewis wedi cael gwybod bod dŵr yn rhedeg i mewn i du blaen eiddo preswylydd 92 oed ac yn ystod y tywydd rhewllyd a gafwyd yn ddiweddar, bu'r ardal yn beryglus iawn. Roedd Cyng. Maldwyn Lewis wedi siarad gyda Chyngor Sir Ceredigion ynghylch rhoi bocs halen/graean yn yr ardal, ac roedd y Cyngor Sir wedi ymateb trwy nodi pe bai'r Cyngor Cymuned yn prynu ac yn gosod y bocs yn y man priodol, y byddai'r Cyngor Sir yn ei lanw gyda graean. Trafodwyd y mater a chynigiodd Cyng. Owenna Davies y dylem brynu'r bocs halen/graean. Roedd pob Cynghorydd yn cytuno gyda'r cynnig hwn. Bydd y Cadeirydd yn ystyried y pris ac yn adrodd i'r Clerc.

**Ffostrasol** – Dywedodd Cyng. Owenna Davies bod y fainc ar y darn o borfa ger Llyscerdin yn bwdr. Bydd Cyng. Mark Davies yn edrych arni ac yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

**Coed Nadolig** – Diolchodd Cyng. Owenna Davies i'r Cadeirydd (Mark Davies) a Chyng. Ceri Jones am eu gwaith caled wrth osod y coed Nadolig yn y pentrefi lleol. Yn ogystal, diolchodd y Cynghorwyr i deulu Cyng. Sharon Thomas am roi'r goeden Nadolig, ac i Neil Davies am wneud Coeden Nadolig addurniadol wedi'i chreu o baledi wedi'u hailgylchu, a'i gosod ym Maesllyn.
O bosibl ar gyfer Nadolig 2021, byddai modd prynu goleuadau gwell ond mae'n debygol y bu'r tywydd gwlyb dros y Nadolig 2020 yn ffactor gan nad oedd y goleuadau wedi gweithio'n iawn.

9. Cyfarfod Nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar NOS FAWRTH, 2 CHWEFROR, 2021 am 7.30 p.m., unwaith eto dros Zoom.

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill i'w trafod, terfynodd y Cadeirydd y cyfarfod am 8.50 p.m.

10. Eitemau ar gyfer y Cyfarfod Nesaf

Ymddiheuriadau
Datgelu Buddiannau
Cofnodion y cyfarfod blaenorol/Materion yn Codi
Adroddiad gan y Cynghorydd Sir
Gohebiaeth
Cynllunio
Cyllid – Ffurflenni Grant
    Cynllunio Cyllideb
    Archwiliad
    Taliadau
Materion Ardal
Dyddiad y cyfarfod nesaf
Unrhyw Fater Arall